# WILLIAMS, THOMAS LLOYD (1830 - 1910), llenor yn U.D.A.;

**Enw:** Thomas Lloyd Williams
**Dyddiad geni:** 1830
**Dyddiad marw:** 1910
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llenor
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Brongaled, Dyffryn Ardudwy, Sir Feirionnydd, 25 Tachwedd 1830. Yr oedd dylanwad y Parchn. Richard Humphreys ac Edward Morgan yn fawr arno. Bu'n siopwr am gyfnod cyn ymfudo i Racine, Wisconsin, U.D.A., 1850; yno agorodd fasnachdy a gweithio hefyd mewn ffatri wlân. Ysgrifennai i'r *Drych* a newyddiaduron eraill. Cyhoeddodd *A brief history of the early Welsh settlers of Racine and of the first Welsh C.M. Church from its organisation in 1842*, 1891, a *Cymry Racine, Wisconsin; Nodweddion y Genedl Gymreig*, 1904. Yn 1856 ysgrifennodd draethawd, ' Cymwysterau Gwladwr Da yn y Talaethau Unedig.' Bu farw 24 Tachwedd 1910.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau

*Y Drych*, 22 Mawrth 1856, 12 Awst 1909, 9 Rhagfyr 1910

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734503

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu